# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Jeff Jones | Adran Etholiadol: | De Cilâ |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Yn fy rôl fel Cynghorydd, rwyf ar gael i breswylwyr 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos a gellir cysylltu â fi dros y ffôn/ffôn symudol (a pheiriant ateb) neu drwy e-bost.

Rwyf wedi bod yn weithgar yn lleol, gan gefnogi preswylwyr mewn ymgyrch Cynllun Datblygu Lleol sylweddol, ymgyrch i helpu Tŷ Cilâ. Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd PACT lleol.

Roeddwn hefyd yn rhan o ymgyrch i sefydlu grŵp 'Cyfeillion Parc Dyfnant'.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 10 | / | 12 | 83 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 10 | / | 11 | 91 | % |
| Y cyngor | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 8 | / | 10 | 80 | % |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 10 | / | 15 | 67 | % |
| Pwyllgor Safonau | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 3 | / | 5 | 60 | % |
| CYFFREDINOL | 64 | / | 82 | 78 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Llywodraethwr yn Ysgol Dyfnant ac Ysgol yr Olchfa, yn cymryd rhan yn y pwyllgorau Adeiladau a Chyllid yn benodol.

Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac aelod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

Aelod o'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chraffu Cyllid.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ar y dechrau, cynigiais y dylid ymchwilio i fewnfuddsoddi ac rwyf bellach yn gweithredu fel Cynullydd Panel Craffu sy'n ystyried y pwnc. Mae'r panel wedi cyfarfod â chynrychiolwyr aelodau'r cyhoedd a chymunedau busnes – caiff adroddiad terfynol ei lunio yn y dyfodol agos.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi ymgymryd â'r hyfforddiant canlynol:

17/12/2013 - Hyfforddiant Cyflwyniad i'r Cyfryngau
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/10/2013 - Deallusrwydd Emosiynol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Hefyd, euthum i hyfforddiant ynglŷn ag amddiffyn plant, archwilio cyfrifon a chynllunio wrth gefn.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Rwyf wedi bod yn ymgyrchu dros nifer o faterion yn y ward megis camerâu cyflymder ar Heol Gŵyr a pharthau 20 MYA yn y rhan fwyaf o'r ward. Mae'r materion hyn wedi'u cofrestru ac yn parhau.

Mae nifer o brosiectau cyfyngiadau parcio hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer y ward, ond rhoddir blaenoriaeth i waith sydd wedi'i gyllidebu a'i gynllunio.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28.05.14 |